




Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David



PCYDDS

Systemau AI Cynhyrchiol ac AI –
Canllawiau i Staff

Cynnwys

1.	Diffiniadau	3
2.	Canllawiau	4
3.	Data - Canllawiau ar brosesu data gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol	10
4.	Defnyddio Asiantau AI	12
5.	Defnyddio AI Cynhyrchiol mewn Ymchwil	12
6.	Persbectif cyfreithiol	14
	Atodiad 1	15

Canllawiau a chyngor i staff ar ddefnyddio systemau Deallusrwydd Artiffisial (AI) Cynhyrchol ac AI

1. Diffiniadau

1.1 Beth mae'r canllaw hwn yn ymdrin ag ef?

Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â'r defnydd o systemau ac offer AI Cynhyrchol a Deallusrwydd Artiffisial (AI) ehangach gan staff y brifysgol. Mae'n rhoi arweiniad ar fanteision, cyfyngiadau a'r defnydd cyfrifol o AI, gan gynnwys diogelu data, ystyriaethau cyfreithiol a moesegol.

Mae hefyd yn esbonio sut y dylai staff asesu achosion arfaethedig o ddefnyddio AI, gan gynnwys pryd y gall y defnydd fynd rhagddo o fewn canllawiau presennol, pryd y dylid ceisio cyngor, a phryd mae angen Cais ffurfiol i Ddefnyddio Offeryn AI. Mae'r canllaw hefyd yn rhoi gwybodaeth am rai o'r offer a datrysiadau AI sydd ar gael i staff, sut i gael gafael ar wasanaethau cymorth, a dolenni i adnoddau a hyfforddiant pellach.

1.2 Beth nad yw'r canllaw hwn yn ymdrin ag ef?

Nid yw'r canllaw hwn yn ymdrin ag unrhyw ganllawiau dysgu ac addysgu penodol ar gyfer staff – mae'r elfennau hyn (gan gynnwys elfennau fel moeseg ac asesiadau) i'w gweld yng [nghanllawiau dysgu ac addysgu'r Brifysgol](#) sydd wedi'u lleoli ar Moodle sy'n ymwneud yn benodol ag AI o fewn y cyd-destun Dysgu ac Addysgu.

1.3 Beth yw AI Cynhyrchol?

Mae AI cynhyrchol yn cyfeirio at systemau deallusrwydd artiffisial uwch a gynlluniwyd i greu cynnwys newydd, gan gynnwys testun, delweddau, cerddoriaeth a mwy, trwy ddysgu o setiau data helaeth. Mae'r systemau hyn yn defnyddio dysgu peiranyddol, yn enwedig technegau dysgu dwfn, i ddeall patrymau, arddulliau a strwythurau cynnwys a luniwyd gan bobl.

Yn wahanol i AI traddodiadol, sy'n canolbwyntio ar ddadansoddi a rhagfynegi, mae AI Cynhyrchol yn rhagori wrth gynhyrchu allbynnau newydd, sy'n aml yn gofyn am fawr ddim mewnbwn gan bobl. Gellir ei gymhwyso ar draws gwahanol feysydd, megis celf, adloniant, dylunio ac awtomatiaeth, gan gynnig atebion arloesol a gwella creadigrwydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn cyflwyno heriau moesegol a gweithredol, gan gynnwys pryderon ynghylch hawlfraint, dilysrwydd a'r potensial ar gyfer camddefnyddio. Mae gan staff PCYDDS fynediad at Copilot gan Microsoft fel yr ateb AI cynhyrchol a argymhellir, a cheir rhagor o fanylion yn y canllawiau hyn.

1.4 Beth yw GPT?

Mae GPT (Trawsnewidydd Cyn-hyfforddedig Cynhyrchol neu *Generative Pre-trained Transformer*) yn dechnoleg AI drawsnewidiol, a luniwyd i gynhyrchu testun sy'n dynwared ysgrifennu gan bobl. Fe fyddwch yn ôl pob tebyg wedi clywed am y model GPT cyntaf a mwyaf adnabyddus: ChatGPT. Mae'n elfen hollbwysig mewn AI Cynhyrchol, sydd wedi'i hyfforddi ar destun helaeth o'r rhyngwrdd i gyflawni tasgau fel ysgrifennu, ateb ymholiadau a chyfieithu. O ran ei saernïaeth, mae'n rhagori mewn prosesu dilyniannau data, gan gynyddu gallu pob iteriad GPT i gynhyrchu ymatebion cydlynol, sy'n berthnasol i gyd-destun.

Mae fersiynau gwahanol ar gael o GPT Open AI y gallech eu gweld wrth archwilio AI Cynhyrchol. Yn y bôn maent yn nodi esblygiad y dechnoleg hon, gyda phob fersiwn newydd yn dod â gwelliannau o ran dealltwriaeth, ymwybyddiaeth o'r cyd-destun ac ansawdd allbwn. Gan ddechrau o GPT-1, mae pob fersiwn ddilynol (GPT-2 hyd at GPT-5 a thu hwnt) wedi bod yn llawer mwy o faint ac yn fwy galluog, gan

gynnig ymatebion mwy soffistigedig a dealltwriaeth ehangach o iaith. Mae Microsoft Copilot hefyd yn manteisio ar y model OpenAI GPT diweddaraf.

Ymhlith y prif Fodelau Iaith Mawr (LLM) eraill mae Claude (Anthropic), Gemini (Google DeepMind), a LLaMA (Meta). Mae'r rhan fwyaf bellach yn cynnig fersiynau gradd menter sy'n cynnwys rheolaethau preifatrwydd, y gallu i optio allan o ddefnyddio data hyfforddi, ac integreiddio â systemau sefydliadol. Mae yna rai eraill hefyd, gyda llawer o [wybodaeth ar gael ar-lein](#) yn cymharu'r gwahanol ddarpariaeth.

1.5 Beth maen nhw'n gallu ei wneud a sut y gallant fod o gymorth?

Mae AI Cynhyrchiol yn cynnig buddion trawsnewidiol i'r gweithle ac amgylcheddau addysgol, gan feithrin creadigrwydd, effeithlonrwydd ac arloesedd. I staff, gall ymgorffori AI Cynhyrchiol mewn tasgau a phrosesau dysgu dyddiol wella cynhyrchiant personol yn sylweddol. Amlinellir rhai o'r buddion isod:

- Tasgau Gweinyddol Awtomataidd: Gall AI Cynhyrchiol awtomeiddio tasgau arferol fel amserlennu, gohebiaeth e-bost, a rheoli dogfennau.
- Galluoedd Ymchwil: Mae'n cynorthwyo â dadansoddi data, adolygiadau llenyddiaeth, a chreu damcaniaethau, gan gyflymu cyflymder yr ymchwil a'r darganfod (er gwaethaf y materion moesegol sy'n gysylltiedig â defnyddio ymchwil ynghylch gwybodaeth sensitif).
- Cynhyrchu Cynnwys Creadigol: Ar gyfer marchnata a chyfathrebu, gall AI Cynhyrchiol gynhyrchu dyluniadau arloesol, ysgrifennu cynnwys cymhellol, a chreu deunyddiau amlgyfrwng deniadol.
- Deunyddiau Dysgu Personol: Mae'n hwyluso creu adnoddau dysgu wedi'u teilwra i fynd i'r afael ag amrywiol anghenion ac arddulliau dysgu myfyrwyr.

2. Canllawiau

2.1 Yr holl staff

Nid yw'r Brifysgol yn dymuno atal staff y brifysgol rhag defnyddio technolegau AI cynhyrchiol fel rhan o'u gwaith. Fodd bynnag, mae'n hanfodol nad yw unrhyw waith a gynhyrchir gyda chymorth AI yn cael ei gamgyfleu fel creadigaeth wreiddiol gan yr unigolyn yn unig. Gellir ystyried AI Cynhyrchiol yn offeryn atodol gwerthfawr wrth greu gwaith o'r fath, gan wella creadigrwydd ac effeithlonrwydd.

Mae'r cymunedau academiaidd a phroffesiynol byd-eang yn parhau i archwilio ac adnabod nifer o ddefnyddiau ar gyfer y technolegau datblygol hyn, gan bwysleisio pwysigrwydd cadw at safonau moesegol wrth eu defnyddio.

Darllenwch y ddogfen ganllaw hon fel y gallwch ddeall yn llawn agweddau cadarnhaol a negyddol defnyddio AI Cynhyrchiol, er mwyn gwneud penderfyniadau gwybodus am ei ddefnydd posibl.

2.2 Academyddion a staff sy'n ymwneud â dysgu ac addysgu ac ymchwil a chefnogi'r meysydd hynny.

Defnyddiwch [ganllawiau presennol y Brifysgol](#), sydd wedi'u lleoli ar ein tudalen Moodle, sy'n ymwneud yn benodol ag AI o fewn y cyd-destun Dysgu ac Addysgu.

Mae'r Brifysgol wedi bod yn cynnal nifer o gyfleoedd hyfforddi ar gyfer staff a myfyrwyr ar yr uchod, gyda rhagor o wybodaeth am y sesiynau hyn ar gael drwy'r Bwletin Staff, ar safle'r [Gymuned Ddysgu AI](#) a gellir chwilio amdanynt drwy [Ddarganfyddwr Adnoddau'r CanolfanDigidol](#).

Mae adran 5 yn cynnwys canllawiau penodol ynghylch defnyddio AI cynhyrchiol o fewn ymchwil.

2.3 Pa mor ddiogel yw systemau AI cynhyrchiol i'w defnyddio?

Mae lefel y diogelwch, y preifatrwydd a'r diogelu data a ddarperir gan systemau Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol offer, darparwyr a mathau o drwyddedau. Ni ddylai staff

gymryd yn ganiataol bod gwybodaeth a fewnbynnir i system AI yn breifat, yn gyfrinachol neu'n ddiogel oherwydd bod y gwasanaeth yn gofyn am fewngofnodi neu ei fod yn gynnyrch y telir amdano.

Mae'r Brifysgol yn argymhell bod staff yn defnyddio offer AI a gymeradwyir ac a gefnogir gan y Brifysgol lle bynnag y bo modd. Er enghraifft, dylai staff sy'n defnyddio Microsoft Copilot fewngofnodi gyda'u manylion PCYDDS fel bod eu defnydd yn cael ei ddiogelu gan drefniadau diogelwch, diogelu data a chydymffurfiaeth Microsoft 365 y Brifysgol.

Dylid cymryd gofal arbennig wrth ddefnyddio gwasanaethau AI sydd ar gael i'r cyhoedd, fersiynau am ddim o gynhyrchion AI masnachol, neu wasanaethau y ceir mynediad iddynt trwy gyfrifon personol neu danysgriadau. Mae gwybodaeth a fewnbynnir i'r gwasanaethau hyn yn gallu cael ei storio, ei phrosesu y tu allan i reolaeth y Brifysgol, ei defnyddio i wella gwasanaethau neu fodelau'r darparwr, neu ei thrin mewn ffyrdd eraill sy'n amhriodol i wybodaeth y Brifysgol.

Ni ddylai staff felly fewnbynnu gwybodaeth bersonol, gyfrinachol, sensitif, gyfyngedig, â hawlfraint neu wybodaeth warchodedig arall y Brifysgol i system AI oni bai bod y system a'r defnydd arfaethedig wedi'u caniatáu o dan y canllawiau hyn neu wedi'u cymeradwyo'n briodol fel arall gan y Brifysgol. Ceir canllawiau pellach yn Adrannau 2.4 a 3.

Nid yw'r ffaith bod cynnyrch AI yn cynnig gosodiadau preifatrwydd uwch, tanysgrifiad â thâl neu opsiwn i atal data rhag cael ei ddefnyddio ar gyfer hyfforddi model yn golygu, ynddo'i hun, bod y cynnyrch wedi'i gymeradwyo ar gyfer defnydd y brifysgol. Dylai staff hefyd osgoi gwneud eu hasesiad eu hunain ynghylch a yw gwasanaeth AI newydd yn ddigon diogel ar gyfer defnydd sefydliadol lle bo gwybodaeth, systemau neu wasanaethau'r Brifysgol dan sylw.

Pan fydd staff yn dymuno defnyddio AI ar gyfer gweithgareddau risg isel sy'n cynnwys gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd neu nad yw'n sensitif, gellir mynd ati fel arfer yn unol â'r canllawiau hyn. Pan fo'r defnydd arfaethedig yn cynnwys data'r Brifysgol, gwybodaeth bersonol, integreiddio â systemau'r brifysgol, gwneud penderfyniadau, caffael neu gyflwyno offeryn neu wasanaeth AI newydd, dylai staff ddilyn y dull seiliedig ar risg a amlinellir yn Adran 2.4 – Defnyddio AI yn Ddiogel: Achosion Defnydd a Phryd i Ofyn am Arweiniad.

Os nad ydych yn siŵr a yw offeryn AI neu ddefnydd arfaethedig yn briodol, gofynnwch am gyngor cyn mewnbynnu gwybodaeth y Brifysgol neu fwrw ymlaen â'r gweithgaredd.

2.4 Defnyddio AI yn Ddiogel: Achosion Defnydd a Phryd i Ofyn am Arweiniad

2.4.1 Beth yw Achos Defnydd AI?

Mae achos defnydd AI yn cyfeirio at unrhyw weithgaredd lle defnyddir deallusrwydd artifisial i:

- **Gynhyrchu cynnwys**
(e.e. drafftio testun, creu delweddau, cynhyrchu cod, crynhoi dogfennau)
- **Dadansoddi neu ddehongli data**
(e.e. adnabod patrymau, crynhoi setiau data, cynhyrchu mewnwlediadau)
- **Cefnogi neu ddylanwadu ar benderfyniadau**
(e.e. argymhellion, ymatebion awtomataidd, blaenoriaethu neu frysbennu)

Gall achosion defnydd AI amrywio o dasgau cynhyrchiant risg isel, bob dydd, i gymwysiadau mwy cymhleth neu risg uwch sy'n cynnwys data, systemau neu wneud penderfyniadau.

Mae'r defnydd o offer AI fel Microsoft Copilot ar gyfer tasgau cyffredinol (e.e. drafftio negeseuon e-bost neu grynhoi dogfennau) yn cael ei ystyried yn achos defnydd AI ond nid oes angen cymeradwyaeth neu uwchgyfeirio pellach ar gyfer hyn yn awtomatig.

2.4.2 Defnyddio AI yn Ddiogel – Dull Seiliedig ar Risg

Mae'r Brifysgol yn mabwysiadu dull cymesur, seiliedig ar risg o ddefnyddio AI.

Yn y rhan fwyaf o achosion, gall staff ddefnyddio offer AI o fewn y canllawiau a ddarperir yn y ddogfen hon. Fodd bynnag, mae yna sefyllfaoedd lle mae angen gofal ychwanegol neu adolygiad ffurfiol.

Mae'r model canlynol yn darparu ffordd syml o benderfynu pa weithredu sydd ei angen.



Gwyrdd – Ewch yn eich blaen

Gallwch fynd ati heb gamau pellach os yw'r canlynol yn berthnasol:

- Rydych chi'n defnyddio offeryn AI cymeradwy at ddibenion risg isel (e.e. fersiwn menter o Microsoft Copilot neu systemau sy'n cyd-fynd ag adran 2.3 a/neu Atodiad 1 o'r canllawiau hyn)
- Rydych chi'n gweithio gyda:
 - Gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd
 - Data nad yw'n sensitif
- Mae'r AI yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cynhyrchiant cyffredinol neu i gefnogi tasgau
- Nid oes unrhyw system, integreiddiad, neu wasanaeth newydd yn cael ei gyflwyno

✓ Dim angen gweithredu pellach

✓ Daliwch ati i ddilyn y canllawiau hyn a defnyddio barn broffesiynol

Nid oes angen adolygiad ffurfiol yn awtomatig ar ddefnydd arferol o ddata personol cyffredin o fewn gwasanaeth AI lefel menter y Brifysgol, fel Microsoft Copilot, y ceir mynediad iddo gan ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS, os oes yna angen busnes cyfreithlon, os yw'r data a ddefnyddir wedi'i gyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol, ac os dilyni'r gofynion diogelu data arferol y Brifysgol.



Amber – Gofynnwch am Gyngor

Dylech ofyn am arweiniad lle bo unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Nid ydych yn siŵr am y data sy'n cael ei ddefnyddio (e.e. y potensial i ail-adnabod)
- Nid yw'r set ddata'n gyhoeddus eto, neu mae'n cynnwys data heb ei gyhoeddi neu ddata trydydd parti
- Gall allbwn AI ddylanwadu ar benderfyniadau neu ganlyniadau
- Rydych chi'n ystyried defnyddio offeryn AI sy'n anghyfarwydd i chi neu nad yw ei statws o dan ganllawiau'r brifysgol yn glir.
- Nid ydych yn siŵr a yw eich defnydd yn cydymffurfio â:
 - Gofynion diogelu data
 - Moeseg ymchwil
 - Hawlfraint neu drwyddedu

Yn yr achosion hyn, dylech ofyn am gyngor gan y canlynol:

- Gwasanaethau Digidol a Gwybodaeth
- Tîm Diogelu Data (os yw'n gysylltiedig â data)
- Llywodraethiant ymchwil (os yw'n gysylltiedig ag ymchwil)

Bwriedir i hyn fod yn wiriad eithaf arwynebol, nid proses gymeradwyo ffurfiol.

Coch – Angen Adolygiad Ffurfiol

Rhaid i chi ddilyn proses Gwneud Cais y Brifysgol i Ddefnyddio Offeryn AI, lle bo unrhyw un o'r canlynol yn berthnasol:

- Bydd yr offeryn neu'r system AI yn ymwneud â phrosesu data personol risg uwch, yn cynnwys:
 - data categori arbennig neu sensitif
 - data personol a brosesir mewn system AI nad yw eisoes wedi'i chymeradwyo gan y Brifysgol ar gyfer y math hwnnw o ddefnydd
 - data personol a ddefnyddir i wneud neu gefnogi penderfyniadau, neu ddylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau, sy'n effeithio ar fyfyrwyr, staff neu wasanaethau
 - prosesu unigolion adnabyddadwy mewn modd anarferol, ar raddfa fawr neu arbennig o sensitif
 - data personol a ddefnyddir trwy integreiddiadau, asiantau neu lifoedd gwaith awtomataidd newydd, nad ydynt wedi'u cymeradwyo o'r blaen
- Rydych chi'n bwriadu:
 - Caffael, trwyddedu, defnyddio, gweithredu neu gyflwyno'n ffurfiol offeryn, system neu blatfform AI newydd at ddefnydd y brifysgol.
 - Integreiddio AI â systemau presennol y Brifysgol (e.e. Moodle, Microsoft 365, APIs)
- Gall y system AI:
 - Wneud neu ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar fyfyrwyr, staff neu wasanaethau
 - Cynhyrchu allbynnau a allai effeithio'n fawr ar unigolion adnabyddadwy neu gael eu defnyddio i wneud neu gefnogi penderfyniadau, neu ddylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau, am unigolion adnabyddadwy
- Mae yna:
 - Ystyriaethau contractiol, cyfreithiol neu eiddo deallusol
 - Risgiau posibl i enw da'r Brifysgol

Yn y sefyllfaoedd hyn, rhaid i chi lenwi'r Ffurflen Rhagsgrinio AI a dilyn y Broses Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI (gweler isod).

Mae hyn yn sicrhau:

- Cydymffurfio â GDPR a chyfraith diogelu data
- Adolygiad technegol a diogelu priodol
- Cyd-fynd â pholisïau a safonau'r Brifysgol

2.4.3 Proses Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI

Pan fo angen adolygiad ffurfiol, rhaid i staff ddilyn Proses Gwneud Cais y Brifysgol i Ddefnyddio Offeryn AI.


Mae'r broses hon yn cynnwys:

- Cwblhau Ffurflen Rhagsgrinio AI
- Adolygiad gan yr uned Gwasanaethau Digidol
- Gwiriadau ychwanegol lle bo angen (e.e. Diogelu Data, Diogelwch TG, Caffael)

Mae'r broses wedi'i chynllunio i:

- Ddiogelu staff, myfyrwyr a data'r Brifysgol
- Sicrhau defnydd diogel a chydymffurfio o dechnolegau AI
- Osgoi dyblygu offer a risg diangen

Dolen: [ServiceNow – Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI](#)



2.4.4 Egwyddorion Allweddol

Wrth ddefnyddio AI, dylai staff:

- Ddefnyddio barn broffesiynol a gweithredu'n gyfrifol
- Dilyn y canllawiau presennol ar:
 - Ddiogelu Data
 - Uniondeb academiaidd
 - Moeseg ymchwil
- Gofyn am gyngor pan maent yn ansicr
- Uwchgyfeirio pan fo angen yn unig

Nod y dull hwn yw galluogi defnydd diogel ac effeithiol o AI, tra'n sicrhau goruchwyliaeth briodol pan fo'r risg yn uwch.

2.4.5 Crynodeb

- Mae'r rhan fwyaf o'r defnydd o AI yn risg isel a gellir bwrw ati o fewn y canllawiau
- Mae peth defnydd yn gofyn am wiriad neu gyngor cyflym
- Rhaid i ddefnydd risg uwch ddilyn y Broses ffurfiol o Wneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI

Os ydych yn ansicr, gofynnwch cyn bwrw ati.

2.5 Pa mor ddibynadwy yw systemau AI cynhyrchiol?

Er bod yr systemau AI hyn yn offer pwerus a all ddarparu buddion sylweddol, rhaid eu defnyddio'n ofalus, a rhaid gwirio eu hallbynnau'n ofalus bob amser.

Oherwydd eu galluoedd trawiadol wrth gael sgysiau naturiol gyda defnyddwyr dynol, ac wrth ddatrys rhai mathau o broblemau yn hyderus, efallai y bydd systemau o'r fath yn ymddangos yn "ddeallus"

mewn ystyr ddynol. Fodd bynnag, mae'n bwysig bod yn ymwybodol nad oes ganddynt unrhyw ddealltwriaeth synnwyr cyffredin o'r byd, bwriad, cymhellant, galluedd, na'r galluedd i farnu'n feirniadol ac yn foisol y byddem yn eu cysylltu â deallusrwydd dynol.

Dylech fod yn ymwybodol bod systemau AI Cynhyrchol, ar hyn o bryd, yn cynhyrchu ymatebion sy'n seiliedig ar batrymau ystadegol a dynnwyd o symiau enfawr o ddata neu hyfforddiant a roddwyd iddynt, ac ni all eu datblygwyr sicrhau bod yr ymatebion y mae'r systemau hyn yn eu rhoi yn gywir. Mae hyn yn golygu y gallent ddarparu gwybodaeth ffug neu hyd yn oed ffugio ymatebion anghywir. Gall y data a ddefnyddir i'w hyfforddi fod yn rhagfarnllyd, yn anghyflawn, heb ei ddilysu o bosibl, neu heb ei ddiweddarau'n barhaus, gan greu risgiau o atebion sy'n rhagfarnllyd, wedi dyddio, yn amhriodol neu heb gyd-destun.

2.5.1 Rhithweledigaethau AI

Mae rhithweledigaethau AI yn digwydd pan mae deallusrwydd artiffisial (AI) yn cynhyrchu gwybodaeth anghywir neu gamarweiniol. Gall hyn ddigwydd pan roddir tasgau i fodelau AI sydd y tu allan i'w data hyfforddi.

Achosion

- Data hyfforddi annigonol: efallai na fydd gan fodelau AI ddigon o ddata i roi ymatebion cywir.
- Rhagdybiaethau anghywir: gall y model wneud rhagdybiaethau nad ydynt yn gywir.
- Rhagfarnau: Gall y data a ddefnyddir i hyfforddi'r model fod yn rhagfarnllyd.
- Diffyg dealltwriaeth o'r byd go iawn: Efallai nad yw'r model yn deall y byd go iawn yn ddigon da.

Enghreifftiau

- Gwyddys bod modelau AI wedi creu cofnodion hanesyddol ffug, ffugio dogfennau cyfreithiol, a lledaenu camwybodaeth am bobl.
- Er enghraifft, creodd ChatGPT naratif ffug am athro yn y Gyfraith yn aflonyddu ar fyfyrwyr.

Awgrymiadau ar gyfer osgoi 'Rhithweledigaethau' AI

- Defnyddiwch dempledi data i sicrhau allbynnau cyson.
- Diffiniwch derfynau ar gyfer modelau AI gan ddefnyddio offer hidlo.
- Profwch a mireinio'r system.
- Rhowch bromtiau clir, un cam.

Mae rhai darparwyr systemau AI Cynhyrchol yn rhoi mesurau diogelwch penodol ar waith i osgoi cynhyrchu ymatebion camarweiniol, niweidiol, sarhaus neu amhriodol, ond ar hyn o bryd nid oes llawer o dryloywder ynghylch sut mae hyn yn cael ei wneud, ac yn sicr nid ydynt yn darparu unrhyw warantau penodol yn ei gylch.

Mae'n bwysig deall bod y dirwedd dechnolegol ynghylch y technolegau hyn yn newid yn gyflym, ac mae'n anodd rhagweld a ellir mynd i'r afael â rhai o'r problemau hyn mewn systemau AI yn y dyfodol neu pryd y gellir gwneud hynny.

I grynhoi, er bod manteision sylweddol, rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol o'r agweddau negyddol. Mae allbwn AI yn wallus, a dylid trin ei allbynnau felly. Mae cwestiynau sylweddol hefyd yn cael eu codi ynghylch moeseg AI a'r effaith amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r allbynnau ynni i gynhyrchu modelau iaith mawr.

2.6 Beth yw rhai o'r systemau sydd ar gael a sut mae cael mynediad?

Mae'r Brifysgol yn cadw gwybodaeth am offer AI y mae'n eu cefnogi yn Atodiad 1 / y wefan Offer a Gefnogir. Os hoffech ddefnyddio offeryn AI nad yw'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd, yn enwedig pan fo hyn yn cynnwys data'r Brifysgol, integreiddio, caffael neu ddefnydd ehangach, cyfeiriwch at adran 2.4 i benderfynu a oes angen cyngor neu adolygiad ffurfiol.

2.7 Sut ydw i'n dechrau arni?

Ar ôl darllen y ddogfen ganllaw hon fel bod gennych ddealltwriaeth sylfaenol o AI cynhyrchiol, y ffordd orau o ddechrau arni yw archwilio'r offer AI a gefnogir gan y Brifysgol, yn cynnwys Microsoft Copilot, gan ddefnyddio'r hyfforddiant a'r adnoddau sydd ar gael trwy'r Gymuned Ddysgu AI.

I ddechrau, byddem yn argymhell archwilio'r safle [Cymuned Ddysgu AI ar Moodle](#) a'r adran "Dechrau gyda AI". Gallwch ddefnyddio'r adnoddau yno fel man cychwyn da.

I gael mwy o ffocws i hybu eich cynhyrchiant, gallwch ddefnyddio eich cyfrif LinkedIn Learning prifysgol i gael mynediad at adnoddau fel [y cwrs hwn](#). Mae yna hefyd enghreifftiau penodol eraill ar LinkedIn Learning i chi eu harchwilio.

2.8 Y Camau nesaf

Mae'r Brifysgol eisoes wedi sefydlu grŵp ymgynghori "AI mewn Dysgu ac Addysgu" a'r safle Moodle, Cymuned Ddysgu AI (dolen uchod) i ganoli gwybodaeth am y defnydd o AI Cynhyrchiol.

Fel y nodwyd hefyd, rydym yn archwilio sut y gallem gael trwyddedau i ddefnyddio rhai offer AI Cynhyrchiol yn y Brifysgol.

Byddwch yn ymwybodol bod llawer o systemau AI newydd yn dod ar gael, yn ogystal â systemau AI arbenigol ar gyfer delweddu, cynhyrchu lluniau, cynhyrchu cynnwys ar gyfer y cyfryngau, datblygu meddalwedd a nifer gynyddol o dasgau eraill. Mae gan bob un ei gryfderau, ei wendidau, ei risgiau a'i fanteision ei hun.

3. Data - Canllawiau ar brosesu data gan ddefnyddio Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol

Mae systemau AI yn prosesu gwybodaeth a ddarperir trwy bromptiau, cynnwys wedi'i uwchlwytho, ffynonellau data cysylltiedig a rhyngweithiadau eraill. Mae'r modd mae'r wybodaeth honno'n cael ei storio, ei chadw neu ei defnyddio yn amrywio'n sylweddol rhwng gwasanaethau a mathau o drwyddedau AI. Felly, rhaid i staff ddefnyddio gwasanaethau AI a gefnogir ac a gymeradwyir gan y Brifysgol lle bo gwybodaeth y Brifysgol dan sylw a rhaid iddynt ddilyn y gofynion diogelu data, diogelwch a chyfrinachedd a nodir yn y canllawiau hyn.

Rhaid i systemau AI sy'n prosesu data personol gydymffurfio â GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Mae'r mesurau diogelu priodol yn dibynnu ar y math o wybodaeth sy'n cael ei phrosesu a'r gwasanaeth AI sy'n cael ei ddefnyddio.

Rhaid peidio â mewnbynnu gwybodaeth bersonol, gyfrinachol, sensitif neu gyfyngedig y Brifysgol i systemau AI cyhoeddus, personol neu systemau eraill sydd heb eu cymeradwyo.

Pan fo gwasanaeth AI fersiwn menter y Brifysgol yn cael ei ddefnyddio, fel Microsoft Copilot, y ceir mynediad iddo gan ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS, gall fod yn briodol prosesu data personol cyffredin yn y sefyllfaoedd canlynol:

- mae gan y Brifysgol bwrpas busnes cyfreithlon

- mae'r data personol yn angenrheidiol ar gyfer y dasg
- dim ond lleiafswm y data gofynnol a ddefnyddir
- dilynir gofynion diogelu data, cyfrinachedd a mynediad arferol
- adolygir allbynnau AI yn briodol ac ni chânt eu defnyddio fel yr unig sail ar gyfer penderfyniadau arwyddocaol am unigolion.

Rhaid i ddata categori arbennig neu ddata personol sensitif, dulliau prosesu anarferol neu risg uchel, penderfyniadau arwyddocaol, neu ddefnydd o ddata trwy systemau / integreiddiadau nad ydynt eisoes wedi'u cymeradwyo, gael eu hatgyfeirio o hyd trwy broses adolygu AI priodol y Brifysgol cyn bwrw ymlaen.

Os nad oes angen data personol ar gyfer y dasg, dylai staff ddileu neu wneud dynodyddion yn ddienw cyn darparu gwybodaeth i system AI.

3.1 Cydymffurfio â Deddfau Perthnasol a Defnydd Moesegol:

Rhaid i bob defnydd o AI yn y Brifysgol gadw at ddeddfau a rheoliadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, gan gynnwys diogelu data, eiddo deallusol a safonau moesegol. Dylid defnyddio AI yn foesegol, gan sicrhau tegwch, tryloywder ac atebolrwydd yn ei gymwysiadau. Mae defnydd gwahaniaethol, niweidiol neu anfoesegol o AI wedi'i wahardd yn llym.

3.2 Cyfyngiadau Data a'r defnydd o AI

Rhaid ystyried y math o ddata a brosesir a'r system AI a ddefnyddir. Rhaid peidio â mewnbynnu gwybodaeth bersonol, gyfrinachol, sensitif, gyfyngedig neu warchodedig y Brifysgol i systemau AI cyhoeddus, personol neu eraill sydd heb eu cymeradwyo.

Pan fo gwasanaeth AI fersiwn menter cymeradwy'r Brifysgol yn cael ei ddefnyddio, fel Microsoft Copilot, y ceir mynediad iddo gan ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS, gall defnydd arferol o ddata personol cyffredin fod yn briodol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn Adran 3, ar yr amod mai dim ond lleiafswm y wybodaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y dasg a ddefnyddir ac y dilynir gofynion diogelu data a chyfrinachedd arferol y Brifysgol.

Mae angen gofal arbennig gyda'r mathau canlynol o wybodaeth ac efallai y bydd angen cyngor neu adolygiad ffurfiol cyn eu prosesu gan ddefnyddio AI:

- data categori arbennig neu ddata personol sensitif iawn arall
- gwybodaeth ynghylch diogelu, disgyblu, cwynion, iechyd neu wybodaeth sensitif arall am waith achos
- enwau defnyddwyr, cyfrineiriau, manylion dilysu neu wybodaeth ddiogelu
- gwybodaeth gyfrinachol neu gyfyngedig am y Brifysgol
- gwybodaeth eiddo deallusol neu fasnachol sensitif y Brifysgol
- deunydd hawlfraint lle nad oes gan y Brifysgol hawliau neu ganiatâd priodol ar gyfer y defnydd arfaethedig
- data trydydd parti lle nad oes gan y Brifysgol awdurdod priodol i brosesu'r wybodaeth gan ddefnyddio AI
- gwybodaeth a ddefnyddir i wneud neu gefnogi penderfyniadau, neu ddylanwadu'n sylweddol ar benderfyniadau, sy'n effeithio ar unigolion adnabyddadwy
- data a brosesir trwy offer, integreiddiadau, asiantau neu lifoedd gwaith awtomataidd AI newydd nad ydynt wedi'u cymeradwyo o'r blaen.

Os nad oes angen dynodyddion personol ar gyfer y dasg, dylid eu dileu neu eu gwneud yn ddienw cyn i'r wybodaeth gael ei darparu i'r system AI.

Os yw staff yn ansicr a yw'r defnydd arfaethedig yn briodol, dylent ddilyn y dull seiliedig ar risg yn Adran 2.4 a gofyn am gyngor cyn bwrw ymlaen.

4. Defnyddio Asiantau AI

Mae Asiantau AI yn cynrychioli ffurf ddatblygol o Ddeallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol sydd wedi'i chynllunio i weithredu ar ran defnyddiwr. Gall y systemau hyn amrywio'n sylweddol o ran cymhlethdod a gallu, ac wrth ystyried eu defnyddio mae'n bwysig deall y gwahaniaeth rhwng asiantau "sgyrsiol" symlach ac asiantau "ymreolaethol" mwy datblygedig. Rhaid i staff gymryd gofal arbennig wrth ystyried y data a'r systemau y mae asiantau o'r fath yn cael mynediad iddynt.

- **Asiantau AI Sylfaenol** - Mae asiantau sylfaenol fel arfer yn gweithredu fel sgwrsfotiau sgyrsiol sy'n gysylltiedig â ffynonellau data cymeradwy. Eu prif bwrpas yw adfer a chrynhai gwybodaeth neu ateb ymholiadau defnyddwyr yn seiliedig ar y data hwnnw. Mae enghreifftiau'n cynnwys rhyngwynebau sgwrsio wedi'u hintegreiddio i systemau'r brifysgol neu offer fersiwn menter fel Microsoft Copilot. Mae'r asiantau hyn yn gweithredu o fewn ffiniau diffiniedig ac nid ydynt yn cymryd camau annibynnol y tu hwnt i ddarparu gwybodaeth neu ddrafftio cynnwys.
- **Asiantau AI Uwch neu Ymreolaethol** - Mewn cyferbyniad, gall asiantau mwy cymhleth berfformio gweithredoedd ar ran defnyddiwr - megis anfon negeseuon e-bost, creu dogfennau, amserlennu cyfarfodydd, rheoli ffeiliau, neu integreiddio â systemau meddalwedd eraill trwy APIs neu gysylltwyr. Gall yr asiantau hyn gadwyno sawl cam gyda'i gilydd, cyrchu gwahanol offer yn awtomatig, a chwblhau tasgau heb oruchwyliaeth ddynol barhaus. Er y gall y galluoedd hyn wella effeithlonrwydd, maent hefyd yn cario risgiau sylweddol uwch os nad ydynt wedi'u ffurfwedu a'u llywodraethu'n ofalus, yn enwedig ynghylch preifatrwydd data, rheoli mynediad, ac atebolrwydd o ran deilliannau.

Waeth beth fo'r math, rhaid i bob defnydd o Asiantau AI gydymffurfio â'r un egwyddorion a rhybuddion a amlinellir yn y canllawiau hyn. Rhaid peidio â rhoi mynediad i Asiantau AI at wybodaeth, systemau neu wasanaethau personol, cyfrinachol neu gyfyngedig y Brifysgol oni bai bod y mynediad hwnnw wedi'i gymeradwyo'n benodol trwy'r broses Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI a bod rheolaethau diogelwch gwybodaeth a diogelu data priodol ar waith.

Dylai gweithredu Asiant AI datblygedig neu ymreolaethol gael ei drin bob amser fel achos defnydd Coch a rhaid dilyn y Broses Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI.

5. Defnyddio AI Cynhyrchiol mewn Ymchwil

Mae PCYDDS yn cydnabod y defnydd cynyddol o offer a systemau Deallusrwydd Artiffisial (AI) yn y broses ymchwil ac yn annog arloesi sy'n datblygu gwybodaeth ac arfer. Fodd bynnag, rhaid i'r defnydd o AI gael ei wneud yn gyfrifol ac yn foeseogol, gydag ystyriaeth lawn o'r goblygiadau ar gyfer uniondeb ymchwil, tryloywder ac atebolrwydd. Nid yw cymeradwyaeth moeseg ymchwil yn cymryd lle'r Broses Gwneud Cais i Ddefnyddio Offeryn AI lle bo'r dechnoleg / achos defnydd arfaethedig yn bodloni'r meini prawf coch, ac i'r gwrthwyneb.

Disgwylir i ymchwilwyr gadw at yr egwyddorion o fewn y canllawiau hyn yn ogystal â'r egwyddorion canlynol wrth ddefnyddio technolegau AI mewn ymchwil:

- **Tryloywder a Datgelu**
Rhaid i ymchwilwyr fod yn dryloyw ynghylch unrhyw ddefnydd o offer AI yn eu proses ymchwil. Mae hyn yn cynnwys y defnydd o AI mewn adolygiadau llenyddiaeth, dadansoddi data, cynhyrchu delweddau neu destun, cymorth codio, a chymorth ysgrifennu, ond heb fod yn

gyfyngedig i'r rhain. Dylid cydnabod defnyddio AI yn glir mewn allbynnau ymchwil, gan gynnwys cyhoeddiadau, adroddiadau a chyflwyniadau.

- **Atebolrwydd**

Mae ymchwilwyr yn parhau i fod yn gwbl gyfrifol am uniondeb, cywirdeb a gwreiddioldeb eu gwaith. Nid yw'r defnydd o AI yn trosglwyddo awduraeth nac atebolrwydd. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod allbynnau a gynhyrchir neu a gynorthwyr gan AI yn cael eu gwerthuso a'u gwirio'n feirniadol.

- **Defnydd Moesegol ac Ymwybyddiaeth o Ragfarn**

Rhaid i ymchwilwyr fod yn ymwybodol o'r cyfyngiadau, y rhagfarnau posibl, a'r risgiau moesegol sy'n gysylltiedig ag offer AI, gan gynnwys materion sy'n ymwneud â phreifatrwydd data, rhagfarn algorithmig, a deilliannau gwahaniaethol. Dylid ystyried y risgiau hyn wrth ddylunio ymchwil a dylid dogfennu strategaethau lliniaru mewn ceisiadau moeseg lle bo hynny'n berthnasol.

- **Diogelu Data**

Fel y nodwyd trwy gydol y canllawiau hyn, ni ddylid mewnbynnu data personol neu sensitif i blatfformau AI sydd ar gael i'r cyhoedd oni bai bod hyn yn cael ei ganiatáu'n benodol o dan bolisiau a chytundebau diogelu data. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau bod unrhyw ddata a rennir gyda systemau AI yn cydymffurfio â rheoliadau preifatrwydd, diogelwch a chyfrinachedd perthnasol.

- **Cydymffurfio â Moeseg Ymchwil mewn perthynas â Data Personol a Chyfrinachol**

Rhaid i unrhyw ymchwil sy'n ymwneud â datblygu, defnyddio neu astudio systemau AI gadw at bolisi Moeseg ac Uniondeb Ymchwil a pholisi Ymchwil ac Arloesi Rhyngwladol Dibynadwy PCYDDS, y polisi Rheoli Data Ymchwil a pholisïau Diogelu Data a GDPR ehangach y brifysgol (gweler adran 3). Ymhellach, rhaid i ymchwilwyr ystyried a yw'r defnydd o offer AI yn cyflwyno ystyriaethau moesegol newydd sy'n cyfiawnhau adolygiad moesegol ffurfiol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â data personol a chyfrinachol.

- **Hyfforddiant a Defnydd Cyfrifol**

Anogir ymchwilwyr i gymryd rhan mewn hyfforddiant i ddeall galluedd, risgiau a dimensiynau moesegol offer AI. Mae defnydd cyfrifol yn cynnwys ymglyfarwyddo'n gyson â datblygiadau a safonau sy'n dod i'r amlwg mewn moeseg a llywodraethiant AI.

- **Cydweithio**

Dylai pob ymchwilydd sy'n ymwneud â phrosiectau cydweithredol fynd i'r afael ag offer AI yn foesegol gan ddilyn dull strwythuredig, tryloyw ac egwyddorol sy'n cyd-fynd â gwerthoedd craidd moeseg ymchwil: gonestrwydd, uniondeb, parch, cyfrifoldeb a thegwch. Rhaid i ymchwilwyr sicrhau tryloywder ynghylch defnyddio offer AI ar bob cam o'r ymchwil (gan gynnwys y cam cynnig ac mewn perthynas ag unrhyw drafodaethau cychwynnol gyda chydweithwyr posibl).

Ceir rhagor o wybodaeth isod:

- [Uniondeb a Moeseg Ymchwil | Mewnwydd PCYDDS](#)
- [Ymchwil ac Arloesi Rhyngwladol Dibynadwy | Mewnwydd PCYDDS](#)
- [Rheoli Data Ymchwil | Mewnwydd PCYDDS](#)
- [Use of generative artificial intelligence in application preparation and assessment – UKRI](#)

- [*Guidelines on the responsible use of generative AI in research developed by the European Research Area Forum - European Commission*](#)
- [*Understanding artificial intelligence ethics and safety - GOV.UK*](#)

6. Persbectif cyfreithiol

Mae'r defnydd o AI Cynhyrchol yn codi nifer o faterion cyfreithiol y dylai staff fod yn effro iddynt. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- **Mewnbynnau:** Mae ystyriaethau cyfreithiol a chontractiol posibl ynghylch i ba raddau y gellir defnyddio data fel mewnbynnau ar gyfer systemau AI. Dylid ystyried deddfau sy'n diogelu perchnogaeth cronfeydd data, hawliau eiddo deallusol a gofynion contractiol sy'n cyfyngu ar y defnydd o setiau data.
- **Eiddo Deallusol:** Rhaid parchu hawliau Eiddo Deallusol. Os yw'r allbwn a gynhyrchir gan AI yn torri eiddo deallusol trydydd parti, gall y parti hwnnw gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person neu'r sefydliad sy'n trefnu bod yr allbwn ar gael. Nid yw systemau AI o reidrwydd yn gwirio a yw allbynnau a gynhyrchir yn torri hawliau trydydd parti. Felly, rhaid i staff gymryd gofal priodol cyn atgynhyrchu neu gyhoeddi deunydd a gynhyrchir gan AI.
- **Dibynadwyedd a Chydraddoldeb:** Gall cynhyrchion AI ddarparu allbynnau sy'n anghywir, yn anghyflawn, yn rhagfarnllyd neu wedi dyddio. Mae staff yn parhau i fod yn gyfrifol am wirio a dilysu allbynnau a gynhyrchir gan AI cyn dibynnu arnynt. Dylai staff hefyd fod yn ymwybodol y gallai canlyniadau gwahaniaethol sy'n deillio o ddefnyddio AI fod yn groes i'r amddiffyniadau a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.
- **Diogelu Data:** Mae'n ofynnol i systemau AI sy'n prosesu data personol gydymffurfio â chyfraith diogelu data, gan gynnwys GDPR y DU a Deddf Diogelu Data 2018. Rhaid peidio â mewnbynnu gwybodaeth bersonol, sensitif neu gyfrinachol i systemau AI cyhoeddus, personol neu eraill heb eu cymeradwyo. Pan fo gofyniad cyfreithlon i brosesu gwybodaeth o'r fath gan ddefnyddio AI, rhaid i'r system a'r defnydd arfaethedig fod wedi'u caniatáu o dan y canllawiau hyn neu wedi'u cymeradwyo'n briodol fel arall gan y Brifysgol, gyda'r mesurau diogelu data, diogelwch a chontractiol angenrheidiol ar waith. Gweler Adran 3 am arweiniad pellach.

Atodiad 1

Nid yw cynnwys cynnyrch yn y tabl hwn ynddo'i hun yn gymeradwyaeth gan y Brifysgol. Dylai staff gyfeirio at y colofnau "Statws yn y Brifysgol" ac "Arweiniad i Staff " a dilyn y dull seiliedig ar risg yn Adran 2.4. Mae gwasanaethau, nodweddion a threfniadau trwydded AI yn newid yn aml; dylid trin gwefan y Brifysgol, Offer a Gefnogir, fel y ffynhonnell awdurdodol ar gyfer gwasanaethau cyfredol a gefnogir.

Rhaglen/ Gwasanaeth	Defnydd arferol	Statws yn y brifysgol	Sefyllfa data / diogelwch	Arweiniad i Staff
Microsoft Copilot / Copilot Chat	Cynhyrchiant cyffredinol, drafftio, crynhoi, cefnogi ymchwil, cynhyrchu delweddau	Fe'i cymeradwyir/cefnogir pan geir mynediad ato gan ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS	Mae Diogelu Data ar lefel menter yn berthnasol pan fydd staff yn mewngofnodi gyda'u cyfrif gwaith/ysgol; diogelir promptiau ac ymatebion gan delerau menter Microsoft ac nid ydynt yn cael eu defnyddio i hyfforddi modelau sylfaen.	Dyma'r gwasanaeth AI at ddiben cyffredinol sy'n cael ei ffafrio ar gyfer gwaith y brifysgol wrth gael mynediad iddo gan ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS. Gall defnydd arferol o ddata personol cyffredin fod yn briodol mewn achosion lle mae angen busnes cyfreithlon, mae'r wybodaeth wedi'i chyfyngu i'r hyn sy'n angenrheidiol, a dilynnir gofynion diogelu data a chyfrinachedd arferol y Brifysgol. Dylid dileu data personol neu ei wneud yn ddienw os nad yw'n angenrheidiol ar gyfer y dasg. Mae data personol categori arbennig/sensitif, gwneud penderfyniadau arwyddocaol, dulliau prosesu anarferol neu risg uchel, integreiddiadau newydd neu ddefnydd o asiantau AI yn ddarostyngedig o hyd i ofynion yr adolygiad seiliedig ar risg yn Adran 2.4.

Rhaglen/ Gwasanaeth	Defnydd arferol	Statws yn y brifysgol	Sefyllfa data / diogelwch	Arweiniad i Staff
Microsoft Copilot - galluoedd / asiantau Microsoft 365 wedi'u hintegreiddio	Gweithio gyda chynnwys Microsoft 365, data sefydliadol, awtomeiddio llif gwaith ac asiantau	Platfform a gefnogir, ond efallai y bydd angen adolygu galluoedd / achosion defnydd penodol	Noda Microsoft bod rheolaethau, caniatâd, cadw ac archwilio ar lefel menter yn berthnasol, er bod y rheolaethau'n amrywio yn ôl y drwydded a ffurfweddiad asiantau.	Gall defnydd risg isel arferol fynd rhagddo. Dylid asesu integreiddiadau, asiantau, gweithredoedd awtomataidd, neu ddefnydd o ddata sensitif o dan Adran 2.4; mae asiantau mwy datblygedig/ ymreolaethol yn dod o dan y canllawiau Coch.
Adobe Firefly	Cynhyrchu delweddau a chynnwys creadigol	Fe'i cefnogir trwy ddarpariaeth Adobe PCYDDS	Offeryn cyfredol a gefnogir gan PCYDDS. Mae Adobe hefyd yn darparu llywodraethiant a rheolaethau ar lefel menter o amgylch gwasanaethau Firefly.	Addas ar gyfer defnydd creadigol cymeradwy. Mae gofynion hawlfraint, cyfrinachedd a data arferol yn dal i fod yn berthnasol.
GitHub Copilot	Datblygu meddalwedd, cynhyrchu codau a chymorth codio	Ar gael/yn cael ei gefnogi ar gyfer defnyddwyr perthnasol PCYDDS	Mae'r atodiad presennol yn cofnodi ei argaeledd yn PCYDDS. Mae fersiynau sefydliadol yn darparu polisïau a reolir yn ganolog ar gyfer modelau, asiantau a nodweddion.	Priodol ar gyfer defnydd datblygu awdurdodedig. Dylai integreiddiadau, asiantau, cadwrfeydd newydd sy'n cynnwys data sensitif neu ddefnydd ehangach ddilyn Adran 2.4.
Vevox AI Quiz Creator	Creu polau, ymgysylltu, a chwisiau â chymorth AI	Fe'i cefnogir trwy drwydded PCYDDS	Nodweddion cyfredol o fewn Vevox a gefnogir gan PCYDDS.	Gellir ei ddefnyddio o fewn y gwasanaeth presennol a'r canllawiau hyn. Mae gofynion Dysgu ac Addysgu yn parhau i fod yn berthnasol.
Nodweddion LinkedIn AI / LinkedIn Learning	Datblygiad proffesiynol a chymorth dysgu	Fe'i cefnogir pan geir mynediad ato trwy LinkedIn Learning PCYDDS	Mae'r atodiad presennol yn nodi bod LinkedIn AI Coach ar gael trwy ddefnyddio manylion mewngofnodi PCYDDS.	Defnyddiwch nhw o fewn y gwasanaeth sefydliadol a gefnogir. Dylid osgoi mewnbynnu gwybodaeth amhriodol i'r gwasanaeth.

Rhaglen/ Gwasanaeth	Defnydd arferol	Statws yn y brifysgol	Sefyllfa data / diogelwch	Arweiniad i Staff
Cynorthwy-ydd Ymchwil AI Llyfrgell PCYDDS	Darganfod adnoddau a chymorth ymchwil	Gwasanaeth a gefnogir gan PCYDDS	Gwasanaeth sefydliadol presennol.	Gellir ei ddefnyddio o fewn ei gwmpas arfaethedig ac yn unol â chanllawiau'r Llyfrgell/ymchwil.
ChatGPT – cyfrifon personol/ am ddim/Plus	Sgwrsio, drafftio, ymchwilio, codio a chreu cynnwys at ddiben cyffredinol	Nid yw'n wasanaeth sefydliadol a gefnogir gan PCYDDS	Mae gan y ddarpariaeth i ddefnyddwyr a busnesau delerau data gwahanol. Mae OpenAI yn nodi nad yw cynhyrchion busnes fel ChatGPT Business, Enterprise ac Edu yn defnyddio mewnbynnau / allbynnau sefydliadol i hyfforddi modelau yn ddiofyn; ni ddylid tybio hyn ar gyfer cyfrifon personol.	Gall defnydd risg isel gyda gwybodaeth gyhoeddus/nad yw'n sensitif ddod o fewn y canllawiau Gwyrdd/Amber. Peidiwch â thrin cyfrif personol y telir amdano fel un a gymeradwyir gan y brifysgol. Mae angen adolygu defnydd sefydliadol neu ddefnydd o ddata gwarchodedig.
ChatGPT Business / Enterprise / Edu	Gweithfan AI sefydliadol a reolir	Platfform a gefnogir, ond efallai y bydd angen adolygu galluoedd / achosion defnydd penodol	Mae OpenAI yn nodi nad yw data sefydliadol yn cael ei ddefnyddio i hyfforddi modelau yn ddiofyn ac mae'n darparu rheolaethau diogelwch / preifatrwydd ar lefel menter.	Mae unrhyw fwrriad i'w gaffael neu ei ddefnyddio'n sefydliadol yn dod o dan y canllawiau Coch a rhaid dilyn y Broses Gofyn am Ddefnyddio Offeryn AI.
Google Gemini – gwasanaeth i ddefnyddwyr	AI at ddiben cyffredinol, cynhyrchu cynnwys, codio, ac ymchwilio	Nid yw'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd at ddefnydd sefydliadol	Mae gan y ddarpariaeth i ddefnyddwyr a darpariaeth Workspace a reolir amddiffyniadau data sylweddol wahanol.	Dylid cynnal arbrofi cyhoeddus/nad yw'n sensitif dim ond pan fo'n gyson ag Adran 2.4. Peidiwch â defnyddio mynediad defnyddwyr at wybodaeth warchodedig y Brifysgol.
Gemini for Google Workspace /	AI wedi'i integreiddio â chymwysiadau Google Workspace	Heb ei nodi ar hyn o bryd fel gwasanaeth a gefnogir	Noda Google bod amddiffyniadau Workspace yn berthnasol i Gemini ac nad yw cynnwys sefydliadol yn cael ei	Byddai angen adolygiad ffurfiol ar gyfer unrhyw integreiddio neu ddefnydd sefydliadol oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo ar wahân gan y Brifysgol.

Rhaglen/ Gwasanaeth	Defnydd arferol	Statws yn y brifysgol	Sefyllfa data / diogelwch	Arweiniad i Staff
Gemini for Education		gan PCYDDS – angen adolygiad	ddefnyddio i hyfforddi modelau cynhyrchol y tu allan i'r parth heb ganiatâd.	
Gemini Notebook / NotebookLM	Ymchwil sy'n seiliedig ar ffynonellau, syntheseiddio dogfennau a chymorth astudio/ymchwilio	Heb ei restru ar hyn o bryd fel gwasanaeth a gefnogir gan PCYDDS	Mae Google bellach yn cynnwys Gemini Notebook o fewn ei fframwaith preifatrwydd Workspace / Education AI; mae cyfrifon Addysg a reolir yn derbyn diogelwch gradd menter.	Dylid trin fersiynau personol/cyhoeddus ar wahân i wasanaethau sefydliadol a reolir. Mae angen asesiad ar gyfer unrhyw ddefnydd gan y Brifysgol neu ddefnydd o ddata gwarchodedig.
Claude	AI at ddiben cyffredinol, drafftio, dadansoddi, codio ac ymchwilio	Platfform a gefnogir, ond efallai y bydd angen adolygu galluoedd / achosion defnydd penodol	Mae darpariaeth y fersiwn menter o Claude yn bodoli ar wahân i'r ddarpariaeth i ddefnyddwyr ac yn darparu opsiynau defnydd sefydliadol a reolir.	Dylid cyfyngu defnydd personol i wybodaeth risg isel briodol. Mae angen adolygiad ffurfiol i'w fabwysiadu neu'i integreiddio'n sefydliadol.
Perplexity	Ymchwilio a chwilio'r we gyda chymorth AI	Nid yw'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd at ddefnydd sefydliadol	Mae fersiynau menter yn darparu amddiffyniadau gwahanol i'r gwasanaethau i ddefnyddwyr, gan gynnwys dim hyfforddiant AI ar ddata menter a rheolaethau cadw / gweinyddu ychwanegol.	Gall defnydd risg isel priodol fynd rhagddo o dan Adran 2.4. Peidiwch ag uwchlwytho gwybodaeth warchodedig y Brifysgol i gyfrifon personol. Mae angen adolygiad ffurfiol ar gyfer ei fabwysiadu ar lefel menter / cysylltwyr.
Canva AI / Magic Studio	Creu dyluniadau, cyflwyniadau, delweddau/fideo a chreu cynnwys	Statws i'w gadarnhau yn erbyn darpariaeth Canva PCYDDS	Mae Canva yn darparu swyddogaethau AI trwy Magic Studio; mae ei wasanaeth fersiwn menter yn cynnwys rheolaethau gweinyddol, diogelwch a phreifatrwydd AI.	Os darperir Canva gan y sefydliad, cadarnhewch pa alluoedd AI sydd wedi eu cwmpasu gan y cytundeb hwnnw. Fel arall dylid ei drin fel gwasanaeth AI allanol o dan Adran 2.4.

Rhaglen/ Gwasanaeth	Defnydd arferol	Statws yn y brifysgol	Sefyllfa data / diogelwch	Arweiniad i Staff
Grammarly AI	Cymorth ysgrifennu, ailysgrifennu, a golygu	Heb ei nodi ar hyn o bryd fel AI a gefnogir gan PCYDDS	Mae'r atodiad presennol yn rhestru'r nodweddion i ddefnyddwyr ond nid yw'n nodi cymeradwyaeth sefydliadol.	Defnyddiau risg isel yn unig oni bai eu bod wedi'u cymeradwyo gan y sefydliad. Peidiwch â chyflwyno gwybodaeth gyfrinachol neu warchodedig trwy gyfrifon personol.
Gamma	Cyflwyniadau a dogfennau a gynhyrchir gan AI	Nid yw'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd at ddefnydd sefydliadol	Mae'r atodiad presennol yn rhestru'r cynnyrch ond nid yw'n nodi cymeradwyaeth sefydliadol.	Gall defnydd cyhoeddus / nad yw'n sensitif fod yn briodol; dylai defnydd sefydliadol neu ddefnydd o wybodaeth y Brifysgol ddilyn Adran 2.4.
Stability AI / rhaglenni creu delweddau annibynnol eraill	Creu delweddau	Nid yw'n cael ei gefnogi ar hyn o bryd ar gyfer defnydd sefydliadol oni bai ei fod wedi'i gymeradwyo ar wahân	Mae'r atodiad presennol yn rhestru Stability AI ond nid yw'n ei nodi fel gwasanaeth a gefnogir gan PCYDDS.	Dylid ei ddefnyddio gyda gwybodaeth/ asedau priodol yn unig ac yn unol â gofynion hawlfraint/trwyddedu.
Offer AI eraill nad ydynt wedi'u rhestru yma	Unrhyw system, ategyn, rhaglen, asiant neu wasanaeth wedi'i alluogi gan AI	Heb ei gymeradwyo'n awtomatig	Mae trefniadau diogelwch, contractiol ac o ran trin data yn amrywio'n sylweddol rhwng cynhyrchion a mathau o drwyddedau.	Dylid cymhwyso Adran 2.4. Gall defnydd risg isel fynd rhagddo lle bo hynny'n briodol; dylid trin offer anghyfarwydd o dan y canllawiau Amber, tra bod caffael, defnyddio, integreiddio, data sensitif, neu ddefnydd o benderfyniadau risg uwch yn dod o dan y canllawiau Coch.